| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 12 Hydref 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd David Smith / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio |
| **Teitl:** | **Canllawiau Cynllunio Atodol 'Datblygiad Preswyl' - Mabwysiadu'r ddogfen derfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus 8 wythnos ar y nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol drafft: 'Datblygiad Preswyl', ac yn argymell mabwysiadu yn unol â newidiadau arfaethedig i'r ddogfen.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cynhaliodd Cynllunio Strategol a Thai ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos rhwng dechrau mis Gorffennaf 2016 a diwedd mis Awst 2016. Adroddwyd ar sylwadau a dderbyniwyd ar y ddogfen ddrafft i gyfarfod Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol ar 21 Medi 2016. Felly, mae angen penderfyniad ar y cynnig i fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft 'Datblygiad Preswyl' ynghlwm fel Atodiad I, yn unol â newidiadau arfaethedig fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori, ynghlwm fel Atodiad II.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Pan gafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013, penderfynodd y Cyngor gario pob Canllaw Cynllunio Atodol mabwysiedig ymlaen i'w defnyddio fel canllawiau cynllunio mewn perthynas â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Cytunwyd hefyd y byddai adolygiad o bob Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl mabwysiadu Cynllun. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y nodyn canllaw newydd yn ychwanegu at Bolisi Cynllun Datblygu Lleol RD 1 'Datblygu cynaliadwy a safon ddylunio dda', Polisi Cynllun Datblygu Lleol RD 3 'Estyniadau a Newidiadau i anheddau', ac yn ymgorffori gwybodaeth o Gynllun Datblygu Unedol blaenorol Sir Ddinbych 1996 – 2011, dogfennau rhif 1 'Estyniadau i Anheddau', rhif 10 'Tai Mewnlenwi yng Nghefn Gwlad', a rhif 24 'Canllawiau Dylunio i Berchnogion Tai'.

4.2 Pwrpas y ddogfen hon yw darparu llawer iawn o wybodaeth i ddarpar ymgeiswyr ar ffurf gryno ac mewn un ddogfen. Darperir canllawiau er mwyn: (1) dangos y meini prawf ac ystyriaethau'r Cyngor wrth asesu cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl, gan gynnwys estyniadau; (2) darparu cyngor ar gynllunio a dylunio mewn modd a fydd yn gwella golwg a gwerth y datblygiad yn y dyfodol; a (3) cynnal cymeriad ac amwynder ardal.

4.3 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor mewn perthynas â safonau dylunio ar gyfer datblygiadau preswyl a datblygiadau gan ddeiliaid tai. Yr amcan yw egluro bod dylunio da yn mynd tu hwnt i fod yn ddeniadol yn weledol, ac yn mynd i'r afael â materion fel mynediad, cymeriad ardal, diogelwch cymunedol, symudiad a chynaliadwyedd amgylcheddol. Ceir rhagor o wybodaeth am dirlunio, yn cynnwys yr awydd i gadw nodweddion naturiol presennol fel rhan o'r datblygiad yn y dyfodol.

4.4 Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg rhwng 4 Gorffennaf 2016 a 2 Medi 2016 am gyfnod o 8 wythnos. Roedd y ddogfen ddrafft ar gael ar wefan y Cyngor (www.sirddinbych.gov.uk) ac ar wefan Cynllun Datblygu Lleol i bartïon â diddordeb gael gweld. Roedd copïau caled hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a siopau un stop y Cyngor. Roedd modd gwneud sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy lythyr, e-bost neu ffurflen sylwadau i'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai, erbyn 2 Medi 2016.

4.5 Cafodd y Cyngor 8 sylw gan grwpiau â diddordeb ac aelodau o'r cyhoedd; gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys. Ar ôl ystyried pob sylw'n ofalus, penderfynodd swyddogion dderbyn nifer o newidiadau, addasiadau neu gamau ymhelaethu arfaethedig, fel a nodir mewn cyflwyniadau unigol. Mae'r newidiadau yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwybodaeth ychwanegol am waith arolygu angenrheidiol, i sicrhau nad oes effeithiau andwyol yn cael eu hachosi ar yr amgylchedd hanesyddol a naturiol, yn enwedig tirlunio.

4.6 Mae newidiadau arfaethedig yn cael eu dangos mewn lliw amlwg neu destun â ~~llinell drwodd~~ yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft sy'n amgaeedig. Mae copïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gael drwy gysylltu â'r tîm Polisi Cynllunio yn Ninbych dros y ffôn: 01824 706916 neu ar e-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y nodyn canllawiau cynllunio atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau corfforaethol a ganlyn:

- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn cael elw o fabwysiadu'r ddogfen wrth gyflenwi'r holl wybodaeth angenrheidiol am ddylunio ar gyfer caniatâd cynllunio i'n cwsmeriaid, ac felly, gwella'r broses penderfynu.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad Effaith ar Les wedi'i gwblhau o'r wefan a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**

Nid oedd yr Asesiad Effaith ar Les wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol ar y Nodau Lles. Mae cynnwys a natur y ddogfen yn arwain at asesiad o effaith 'niwtral' ar y rhan

fwyaf o nodau lles. Ni chynigir cynnal asesiad pellach. Mae’r adroddiad yn amgaeedig fel Atodiad III.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid oedd angen unrhyw ymgynghori â’r Pwyllgor Archwilio, ond roedd swyddogion o Bolisi Cynllunio a Rheoli Datblygu yn cymryd rhan wrth ddrafftio'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Trafodwyd yr adroddiad ymgynghorol drafft gydag Aelodau o Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ar 21 Medi 2016.

Ymgynghorodd y Cyngor ag ymgyngoreion statudol, gan gynnwys yr holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, ac aelodau o'r cyhoedd ar y ddogfen ddrafft am gyfnod o 8 wythnos rhwng 4 Gorffennaf 2016 a 2 Medi 2016.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ragwelir y bydd mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Os bydd rhai yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw gwasanaeth presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn absenoldeb canllaw cyfredol mae perygl na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio cywir i'w gwsmeriaid ynglŷn â chynigion datblygu sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).